Cyllid & Thollau EM

# Stociau a chyfranddaliadau heb eu rhestru, a daliannau sy'n rhoi rheolaeth

Atodlen IHT412

Enw'r ymadawedig

Dyddiad y farwolaeth DD MM BBBB

Cyfeirnod IHT (os yw'n hysbys)

## Pryd i ddefnyddio'r ffurflen hon

Llenwch y ffurflen hon i roi gwybod i ni am unrhyw stociau a chyfranddaliadau roedd yr ymadawedig yn berchen arnynt sydd:

- wedi'u rhestru ar farchnad nad yw'n bodloni'r diffiniad o 'wedi'u rhestru' at ddibenion Cyllid a Thollau EF (CThEF)
- wedi'u cadw mewn cwmni cyfyngedig preifat, mewn Cynllun Ehangu Busnes (BES) neu Gynllun Dechrau Busnes (BSS)
- wedi'u rhestru ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig ac roedd gan yr ymadawedig reolaeth dros y cwmni

Gallwch ddod o hyd i restr o'r marchnadoedd a ddiffinnir fel rhai sydd 'wedi'u rhestru' neu 'heb eu rhestru' at ddibenion CThEF ar ein gwefan - ewch i GOV.UK a chwilio am 'Designated recognised stock exchanges'.

Dylid rhestru pob daliant arall o stociau a chyfranddaliadau ar Atodlen IHT411, sef 'Stociau a chyfranddaliadau a restrwyd'.

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni am unrhyw ddifidendau a llog ar y stociau a'r cyfranddaliadau a oedd yn ddyledus ar ddyddiad y farwolaeth ond sydd heb gael eu talu hyd yma. Rydym yn esbonio'r mathau gwahanol o ddifidendau, a beth i'w gynnwys, yn yr IHT400 Nodiadau.

## Help

Darllenwch y nodiadau arweiniol ar gyfer ffurflen IHT412 yn yr IHT400 Nodiadau, cyn llenwi'r ffurflen hon. I gael rhagor o wybodaeth neu help, neu i gael copi arall o'r ffurflen hon:

- ewch i www.gov.uk/topic/personal-tax/inheritance-tax
- ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900 – os ydych yn ffonio o'r tu allan i'r DU, ffoniwch +44 300 200 1900

## Nodiadau

Ni allwch ddidynnu rhyddhad busnes ar unrhyw gyfranddaliadau heb eu rhestru a oedd yn destun contract rhwymol ar gyfer gwerthiant ar ddyddiad y farwolaeth, oni bai i'r gwerthiant gael ei wneud er mwyn ailadeiladu neu gyfuno'r cwmni.

Nid yw rhyddhad busnes yn ddyledus ar gyfranddaliadau heb eu rhestru sydd wedi'u masnachu, a restrwyd ar gyfnewidfa stoc dramor gydnabyddedig. I wirio a yw rhyddhad busnes yn ddyledus ai peidio:

1. ewch i'r wefan ar gyfer y cwmni y cafodd y cyfranddaliadau eu cadw ynddo. Bydd hyn yn rhoi gwybod i chi a yw'r cyfranddaliadau yn cael eu masnachu ar gyfnewidfa arall, yna
2. gwiriwch a oes unrhyw gyfnewidfa arall y mae'r cyfranddaliadau yn cael eu masnachu arni ar restr y cyfnewidfeydd stoc cydnabyddedig, drwy fynd i www.gov.uk/guidance/recognised-stock-exchanges
   Os yw hi ar y rhestr, nid yw rhyddhad busnes yn ddyledus ar y cyfranddaliadau.

## Talu treth drwy randaliadau

O dan amgylchiadau prin, mae'n bosibl y gallwch dalu treth drwy randaliadau ar gyfranddaliadau heb eu rhestru nad ydynt yn gymwys ar gyfer rhyddhad busnes.

Byddwch yn gallu gwneud hyn os yw (un o'r canlynol yn berthnasol):

- gallwch ddangos na ellid talu'r Dreth Etifeddiant ar werth y cyfranddaliadau mewn un swm heb achosi caledi gormodol
- mae o leiaf 20% o'r dreth y mae'r un person yn agored i'w thalu, yn rhinwedd yr un swydd, ar asedion (gan gynnwys y cyfranddaliadau dan sylw) sy'n gymwys i'w talu drwy randaliadau
- mae gwerth y cyfranddaliadau dros £20,000, ac mae'r cyfranddaliadau yn cynrychioli o leiaf 10% o werth enwol cyfranddaliadau cyfalaf y cwmni, neu (os mai cyfranddaliadau cyffredin ydynt) o leiaf 10% o werth enwol y cyfranddaliadau cyfalaf cyffredin

Os oes gennych dreth i'w thalu ar ddaliannau cyfranddaliadau heb eu rhestru, nad ydynt yn rhoi rheolaeth, ac mae'r rhain yn gymwys i'w talu drwy randaliadau, nodwch werth y cyfranddaliadau ym mlwch 66 ar ffurflen IHT400, nid ym mlwch 65.

## Rhyddhad busnes ar roddion oes

Mae rheolau arbennig sy'n berthnasol i ryddhad busnes ar roddion oes, a dylech ddarllen y rheolau yn yr IHT400 Nodiadau os ydych am ddidynnu rhyddhad busnes oddi ar rodd o stociau a chyfranddaliadau heb eu rhestru neu ddaliannau sy'n rhoi rheolaeth.

## Stociau a chyfranddaliadau heb eu rhestru sydd wedi'u masnachu, nad oeddent yn rhoi rheolaeth dros y cwmni i'r ymadawedig

Nodwch y cyfranddaliadau heb eu rhestru ar farchnad nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o 'wedi'u rhestru' at ddibenion CThEF, os nad oeddent yn rhoi rheolaeth dros y cwmni i'r ymadawedig.

Os oedd yr ymadawedig yn berchen ar unrhyw un o'r mathau hyn o gyfranddaliadau a oedd yn rhoi rheolaeth dros y cwmni iddo, rhestrwch nhw ym mlwch 4 ar y ffurflen hon, yn hytrach nag yma.

Nodwch a oedd pob daliant dan berchnogaeth am o leiaf dwy flynedd cyn marwolaeth yr ymadawedig, drwy ateb 'Iawn' neu 'Na' yn y golofn briodol.

Nodwch ar ba gyfradd rydych yn didynnu unrhyw ryddhad busnes (BR) ar gyfer pob daliant.

1

| Enw'r cwmni, a'r math o gyfranddaliadau neu stoc | Nifer y cyfranddaliadau neu swm y stoc a gedwir | Pris y farchnad fesul cyfranddaliad/stoc ar ddyddiad y farwolaeth £ | Cyfanswm gwerth y cyfranddaliadau/ stoc ar ddyddiad y farwolaeth £ | Difidend sy'n ddyledus hyd at ddyddiad y farwolaeth £ | O dan berchnogaeth am ddwy flynedd (Iawn neu Na) | Swm y rhyddhad busnes (BR) sy'n ddyledus £ | Cyfradd y BR 100% neu 50% |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| | | Cyfansymiau 1 | £ | £ | | £ | |
| | | | Cyfanswm y golofn uchod - dylech gynnwys y swm hwn yn ffurflen IHT400, blwch 65 | Cyfanswm y golofn uchod - dylech gynnwys y swm hwn yn ffurflen IHT400, blwch 64 | | Cyfanswm y golofn uchod - dylech gynnwys y swm hwn yn ffurflen IHT400, blwch 92 | |

## Stociau, cyfranddaliadau a buddsoddiadau heb eu rhestru, nad oeddent yn rhoi rheolaeth dros y cwmni i'r ymadawedig

Yn y blwch hwn, nodwch gyfranddaliadau a gwarantau, heb eu rhestru, mewn cwmnïau cyfyngedig preifat a chyfranddaliadau a gedwir mewn Cynllun Ehangu Busnes (BES) neu mewn Cynllun Dechrau Busnes (BSS), os nad oeddent yn rhoi rheolaeth dros y cwmni i'r ymadawedig. Os oedd yr ymadawedig yn berchen ar unrhyw un o'r mathau hyn o gyfranddaliadau a oedd yn rhoi rheolaeth dros y cwmni iddo, dylech eu rhestru ym mlwch 3 ar y ffurflen hon, yn hytrach nag yma.

**2**

| Enw'r cwmni, a'r math o gyfranddaliadau neu stoc | Nifer y cyfranddaliadau neu swm y stoc a gedwir | Pris y farchnad fesul cyfranddaliad/stoc ar ddyddiad y farwolaeth £ | Cyfanswm gwerth y cyfranddaliadau/ stoc ar ddyddiad y farwolaeth £ | Difidend sy'n ddyledus hyd at ddyddiad y farwolaeth £ | O dan berchnogaeth am ddwy flynedd (Iawn neu Na) | Swm y rhyddhad busnes (BR) sy'n ddyledus £ | Cyfradd y BR 100% neu 50% |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| | | Cyfansymiau **2** | £ | £ | | £ | |
| | | | Cyfanswm y golofn uchod - dylech gynnwys y swm hwn yn ffurflen IHT400, blwch 65 | Cyfanswm y golofn uchod - dylech gynnwys y swm hwn yn ffurflen IHT400, blwch 64 | | Cyfanswm y golofn uchod - dylech gynnwys y swm hwn yn ffurflen IHT400, blwch 92 | |

## Stociau, cyfranddaliadau a buddsoddiadau heb eu rhestru, a oedd yn rhoi rheolaeth dros y cwmni i'r ymadawedig

Nodwch fanylion cyfranddaliadau a gwarantau, heb eu rhestru, mewn cwmnïau cyfyngedig preifat a oedd yn rhoi rheolaeth dros y cwmni i'r ymadawedig.

**3**

| Enw'r cwmni, a'r math o gyfranddaliadau neu stoc | Nifer y cyfranddaliadau neu swm y stoc a gedwir | Pris y farchnad fesul cyfranddaliad/stoc ar ddyddiad y farwolaeth £ | Cyfanswm gwerth y cyfranddaliadau/ stoc ar ddyddiad y farwolaeth £ | Difidend sy'n ddyledus hyd at ddyddiad y farwolaeth £ | O dan berchnogaeth am ddwy flynedd (Iawn neu Na) | Swm y rhyddhad busnes (BR) sy'n ddyledus £ | Cyfradd y BR 100% neu 50% |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| | | Cyfansymiau **3** | £ | £ | | £ | |
| | | | Cyfanswm y golofn uchod - dylech gynnwys y swm hwn yn ffurflen IHT400, blwch 67 | Cyfanswm y golofn uchod - dylech gynnwys y swm hwn yn ffurflen IHT400, blwch 64 | | Cyfanswm y golofn uchod - dylech gynnwys y swm hwn yn ffurflen IHT400, blwch 93 | |

## Stociau, cyfranddaliadau a buddsoddiadau heb eu rhestru sydd wedi'u masnachu, a oedd yn rhoi rheolaeth dros y cwmni i'r ymadawedig

Nodwch fanylion cyfranddaliadau heb eu rhestru sydd wedi'u masnachu, a oedd yn rhoi rheolaeth dros y cwmni i'r ymadawedig.

4

| Enw'r cwmni, a'r math o gyfranddaliadau neu stoc | Nifer y cyfranddaliadau neu swm y stoc a gedwir | Pris y farchnad fesul cyfranddaliad/stoc ar ddyddiad y farwolaeth £ | Cyfanswm gwerth y cyfranddaliadau/ stoc ar ddyddiad y farwolaeth £ | Difidend sy'n ddyledus hyd at ddyddiad y farwolaeth £ | O dan berchnogaeth am ddwy flynedd (Iawn neu Na) | Swm y rhyddhad busnes (BR) sy'n ddyledus £ | Cyfradd y BR 100% neu 50% |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| | | Cyfansymiau 4 | £ | £ | | £ | |
| | | | Cyfanswm y golofn uchod - dylech gynnwys y swm hwn yn ffurflen IHT400, blwch 67 | Cyfanswm y golofn uchod - dylech gynnwys y swm hwn yn ffurflen IHT400, blwch 64 | | Cyfanswm y golofn uchod - dylech gynnwys y swm hwn yn ffurflen IHT400, blwch 93 | |

## Stociau, cyfranddaliadau a buddsoddiadau wedi'u rhestru, a oedd yn rhoi rheolaeth dros y cwmni i'r ymadawedig

Nodwch fanylion cyfranddaliadau wedi'u rhestru, a oedd yn rhoi rheolaeth dros y cwmni i'r ymadawedig.

5

| Enw'r cwmni, a'r math o gyfranddaliadau neu stoc | Nifer y cyfranddaliadau neu swm y stoc a gedwir | Pris y farchnad fesul cyfranddaliad/stoc ar ddyddiad y farwolaeth £ | Cyfanswm gwerth y cyfranddaliadau/ stoc ar ddyddiad y farwolaeth £ | Difidend sy'n ddyledus hyd at ddyddiad y farwolaeth £ | O dan berchnogaeth am ddwy flynedd (Iawn neu Na) | Swm y rhyddhad busnes (BR) sy'n ddyledus £ | Cyfradd y BR 100% neu 50% |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| | | Cyfansymiau 5 | £ | £ | | £ | |
| | | | Cyfanswm y golofn uchod - dylech gynnwys y swm hwn yn ffurflen IHT400, blwch 67 | Cyfanswm y golofn uchod - dylech gynnwys y swm hwn yn ffurflen IHT400, blwch 64 | | Cyfanswm y golofn uchod - dylech gynnwys y swm hwn yn ffurflen IHT400, blwch 93 | |